

# PROSIECT PEILLIO


## Awgrymiadau i helpu gwenyn



**Allwch chi ddychmygu byd heb siocled neu eich hoff ffrwyth? Mae'n syniad ofnadwy a gall ddod yn real os na fyddwn yn helpu diogelu peillwyr natur.**

**Mae gwenyn a gwenyn meirch, pili-palod a phryfed hofran a hyd yn oed adar ac ystlumod i gyd yn helpu peillio planhigion gan gynhyrchu nifer o'n bwydydd blasus.**

Dyma rai o'r prif awgrymiadau ac **adnoddau** fel y gallwch chi helpu peillwyr i gael lle diogel i nythu, bwydo ac yfed drwy'r flwyddyn.







**Plannwch ar gyfer peillwyr** i'w helpu i ddod o hyd i baill a neithdar o ddechrau'r gwanwyn tan ddiwedd y flwyddyn. **Mae'r prif blanhigion** yn cynnwys llysiau'r ysgyfaint, Ferfain Ariannin, penrhudd, lafant, unrhyw flodau syml tebyg i lygad y dydd. Mae iorwg yn blanhigyn defnyddiol iawn ar gyfer blodau'n hwyr yn yr hydref.

**Beth am greu palas peillwyr** a'i alw hefyd yn dŷ pryfed neu'n westy gwenyn, a rhoi cartref arbennig i wenyn unigol nythu a bod yn ddiogel. I gael ysbrydoliaeth edrychwch ar gynigion ein cystadleuaeth ar Instagram **@ecoattractions** neu trowch i'n tudalennau **adnoddau**.



**Ewch i chwilio am beillwyr** i weld pa mor dda mae eich iard gefn, eich gardd, eich parc lleol neu eich man gwyrdd yn ei wneud. Defnyddiwch ein **canllawiau syml** i chwilio am y gwahanol fathau o beillwyr a'u hoff blanhigion, a chymerwch ran yn ein her Pŵer i Wenyn i weld pa mor dda yw eich **planhigion** chi i beillwyr.




**Gallwch wneud pwll peillwyr.** Mae bod yn wenyn yn waith sychedig, yn enwedig pan fyddan nhw'n casglu paill yn y misoedd cynhesaf. Rhowch bethau sgleiniog fel marblys a cherrig mân mewn powlen isel ag ychydig ddŵr ynddi. Rhowch hi yn eich gardd neu ar sil ffenestr i weld pwy fydd yn dod i ymweld. A pheidiwch ag anghofio rhoi dŵr ffres ynddi!



**Byddwch yn garedig** i'r gwenyn gan beidio â defnyddio plaladdwyr gan eu bod yn lladd peillwyr, a phrynwch compost heb fawn i'w hamddiffyn. Gallwch hefyd defnyddio **planhigion cefnogol** i leihau plâu.

Mae melyn Mair a chapan cornicyll yn helpu cadw pla i ffwrdd o blanhigion tomato








**Gadewch iddo dyfu, tyfu, tyfu!** Po leiaf fyddwch chi'n ei dorri o'r borfa, mwya'n y byd o flodau gwylltion fydd yn tyfu ac yn denu peillwyr. Os bydd rhaid ichi dorri'r borfa, gadewch ambell ran heb ei thorri a **heuwch hadau blodau gwylltion organaidd** i greu paradwys i beillwyr yn eich lawnt.



**Taenwch eich hoffter** r led a dweud wrth eich ffrindiau beth rydych chi'n ei wneud i helpu peillwyr. Gallwch rannu'ch syniadau ar Instagram, Twitter a Facebook. Anfonwch atom ar **@ecoattractions**.

**Cewch wybod rhagor**, drwy edrych ar ein gwefan i gael gwybod am **ddigwyddiadau gwych** am beillwyr sy'n digwydd yn agos atoch.
**www.ecoattractions.com**

MARKSHALL ESTATE
South London Botanical Institute
Queenswood Country Park & Arboretum
Wildwood
eco attractions
Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen
Pensthorpe Natural Park
National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
THE LIVING RAINFOREST
eden project
Royal Botanic Gardens Kew
eden project Foyle
TSL TRUST for SUSTAINABLE LIVING

Dangosir gan Madeleine Smith